**PRIFYSGOL ABERTAWE**
**PWYLLGOR ADDYSG Y BRIFYSGOL**

*1.* *Adrodd*

Mae Pwyllgor Addysg y Brifysgol yn adrodd i'r Senedd.

*2.* *Amlder Cyfarfodydd*

Bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith bob mis. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd wyneb yn wyneb fel arfer. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

Dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer sesiwn academaidd 2022-23:

*3.* *Cyfansoddiad*

Mae aelodaeth graidd y Pwyllgor yn cynnwys:

Y Cadeirydd, Dirprwy Is-ganghellor: Addysg
Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol: Academïau
Deoniaid Addysg Cysylltiol y Cyfadrannau (3)
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd (neu enwebai)
Y Prif Swyddog Digidol (neu enwebai)
Pennaeth/Cyfarwyddwr Y Coleg (neu enwebai)
Pennaeth Academi Hywel Teifi
Llywydd Undeb y Myfyrwyr
Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr
Cydlynydd Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr

Ysgrifennydd: aelod o'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd

Gellir galw ar aelodau ychwanegol i adrodd i'r Pwyllgor yn ôl yr angen ond ni fydd angen iddynt ddod i gyfarfodydd fel rheol.

Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Rhaglenni
Cadeirydd y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni
Cadeirydd y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau
Cadeirydd y Bwrdd Achosion Myfyrwyr
Cadeirydd y Bwrdd Partneriaethau Cydweithredol
Cadeirydd y Bwrdd Dilyniant a Dyfarniadau
Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig
Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori Academaidd
Pennaeth y Gwasanaethau Ansawdd Academaidd
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd (neu enwebai)
Swyddog Materion Cymraeg Undeb y Myfyrwyr
Swyddog Lles Undeb y Myfyrwyr
Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr
Swyddog Cymdeithasau a Gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr

Dylid rhoi 'sylw dyladwy ' i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

5. *Presenoldeb*

Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

6. *Cworwm*

Tybir bod cworwm gan y Pwyllgor pan fydd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Y Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd a enwebwyd
O leiaf ddau Ddeon Addysg Cysylltiol
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd neu enwebai y cytunwyd arno
O leiaf un cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr

Gellir gohirio penderfyniadau allweddol os nad yw aelodau allweddol o'r Pwyllgor yn bresennol.

7. **Diben**

- Datblygu, cyflwyno a goruchwylio strategaethau'r Brifysgol o ran Dysgu ac Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr.

- Goruchwylio a chyfarwyddo'n strategol y gwaith o reoli, datblygu a gwella'n barhaus ddysgu ac addysgu a phrofiad myfyrwyr ar bob lefel (israddedig, ôl-raddedig a addysgir ac ymchwil ôl-raddedig).

- Goruchwylio gweithrediad a monitro rheoliadau, prosesau a pholisïau'r Brifysgol ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu.

- Hwyluso cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth ledled y Brifysgol, rhannu arfer da ac ymchwilio i gyfeiriadau newydd mewn dysgu ac addysgu/addysgeg a chyfleoedd i dyfu.

- Sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr yn rhan hanfodol o brosesau penderfynu mewn perthynas â dysgu, addysgu, asesu a phrofiad myfyrwyr.

- Bod yn atebol am sicrhau ansawdd a safonau ar ran Senedd a Chyngor y Brifysgol.

8. *Cylch Gorchwyl*

Bydd dyletswyddau'r Pwyllgor o dan yr awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Senedd fel a ganlyn:

- Datblygu, strategaethau Dysgu ac Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr y Brifysgol, bod yn gyfrifol amdanynt a'u cyflwyno, a gwneud argymhellion i'r Senedd am flaenoriaethau strategol newydd mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu;
- Llywio a goruchwylio gwelliant parhaus profiad y myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr, drwy waith partneriaeth a chynllunio gweithredu effeithiol.
- Pennu safonau ar gyfer arferion effeithiol, arloesol a chynhwysol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu a phrofiad myfyrwyr a'u goruchwylio, rhai sydd wedi'u harwain gan ymchwil a'u llywio gan ymarfer gan ddefnyddio dysgu â chymorth

technoleg; a goruchwylio ymagweddau at gefnogi datblygiad proffesiynol y rhai hynny sy'n ymwneud â dysgu, addysgu ac asesu;
- Goruchwylio a sicrhau safonau ac ansawdd dyfarniadau'r Brifysgol a chydlynu ymateb y Brifysgol i adolygiadau allanol;
- Gorchwylio gweithgarwch rhoi dyfarniadau a sicrhau bod safonau ac ansawdd y dyfarniadau a wneir wedi'u diogelu a'u cynnal ar bob adeg yn unol â statudau, ordinhadau, rheoliadau a gweithdrefnau academaidd; ac ystyried enwau dyfarniadau newydd a gwneud argymhellion i'r Senedd ynghylch eu cymeradwyo;
- Goruchwylio ac adrodd am fframwaith rheoleiddio, sicrhau ansawdd a dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer yr holl raglenni a addysgir ac ymchwil, gan gynnwys pob math o ddarpariaeth gydweithredol yn y DU a thramor, ac adolygu'r fframweithiau'n rheolaidd i ystyried datblygiadau cenedlaethol a phwyntiau cyfeirio allanol, megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac asiantaethau allanol a chyrff proffesiynol a statudol perthnasol.
- Rheoleiddio prosesau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a monitro strategaethau, polisïau a gweithdrefnau effeithiol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu, gwella profiad y myfyrwyr, arholi allanol a gweithdrefnau ar gyfer monitro ac adolygu academaidd drwy ddefnyddio is-bwyllgorau a gweithgorau perthnasol a'r Academïau newydd fel cyfryngau galluogi;
- Goruchwylio ac ysgogi gweithgarwch i wella darlun data academaidd y Brifysgol drwy'r ystod lawn o ddangosyddion perfformiad ac adroddiadau allweddol, a chydymffurfiaeth Cyfadrannau â gofynion y fframweithiau rheoleiddiol ac ansawdd a pholisïau dysgu ac addysgu er mwyn sicrhau safonau dyfarniadau;
- Goruchwylio prosesau cyflwyno, tynnu rhaglenni'n ôl a'u hatal a diwygiadau i raglenni presennol;
- Ystyried a phenderfynu ar faterion a gyfeirir at ei sylw gan y Senedd, ei his-bwyllgorau, ei phwyllgorau adrodd, ei gweithgorau a chyrff allanol perthnasol, a phenderfynu ar gamau gweithredu;
- Goruchwylio'r penderfyniadau a wneir gan is-bwyllgorau a byrddau cynghori'r Pwyllgorau drwy eu hawdurdod dirprwyedig a derbyn cofnodion ac adroddiadau;
- Cysylltu â phwyllgorau eraill y Senedd a chyfeirio materion eraill o ddiddordeb at eu sylw;
- Derbyn, drwy'r Cadeirydd, fynegiannau o bryder gan staff, myfyrwyr, arholwyr allanol neu gyrff allanol eraill mewn perthynas â sicrhau ansawdd a safonau'r dyfarniadau a wneir yn enw'r Brifysgol.

*8.1 Is-bwyllgorau/grwpiau a'u cylch gorchwyl*

Is-bwyllgorau
- Y Pwyllgor Cynghori Academaidd
- Y Bwrdd Partneriaethau Cydweithredol
- Pwyllgorau Addysg y Cyfadrannau (3)
- Y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig
- Y Bwrdd Rheoli Rhaglenni
- Y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni
- Y Bwrdd Dilyniant a Dyfarniadau
- Y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd, a Safonau
- Y Bwrdd Achosion Myfyrwyr

Grwpiau Cynghori:

- Fforwm Addysg y Brifysgol

- Fforwm Ymgynghorol Myfyrwyr
- Y Fforwm Technoleg Ddigidol mewn Addysg

*8.2 Arall*

Ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirir at sylw'r Pwyllgor gan y Senedd.

*8.3 Adolygiad Effeithiolrwydd*

(i) Adolygu'n flynyddol effeithiolrwydd y Pwyllgor yn erbyn ei gylch gorchwyl a chynnig argymhellion ar gyfer newid i'r Senedd.

*8.4 Pwerau*

(i) Gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Senedd;
(ii) Sefydlu'r fath grwpiau tasg a gorffen sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes y Pwyllgor;

| | |
|---|---|
| *Cyflwynwyd i'r Senedd i'w gymeradwyo:* | *Hydref 2022* |
| *Cymeradwywyd gan y Senedd:* | *19 Hydref 2022* |
| *Dyddiad Adolygu Nesaf:* | *Hydref 2023* |